CYNGOR SIR CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
DYDDIAD:	**10 Mawrth 2022**
LLEOLIAD:	**O bell drwy fideo gynadledda**
TEITL:	**Adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y cynnydd gydag astudiaethau y mae Archwilio Cymru yn eu cynnal neu wedi'u cynnal**
ER:	**Penderfyniad**
PORTFFOLIO CABINET AC AELOD CABINET:	**Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd**

Cefndir
Mae'r Adroddiad hwn yn nodi Adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth ac mae iddo dair rhan:
a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
b) Unrhyw waith lleol ynghylch risg a gyflwynwyd/ a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

Y Sefyllfa Bresennol

a) Diweddariad chwarterol Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Amserlen Rhaglen Waith Chwarter 3 2021-2022 – Ceredigion (**Atodiad 1**)

b) Unrhyw waith lleol ynghylch risg a gyflwynwyd/ a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

- Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar Gartref Gofal Preswyl Hafan Deg (**Atodiad 2**)
- Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar Gartref Gofal Preswyl yr Hafod (**Atodiad 3**)
- Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 Cyngor Sir Ceredigion (**Atodiad 4**)

c) Adroddiadau Cenedlaethol Archwilio Cymru

- Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys
  (https://www.audit.wales/cy/publication/cydweithio-rhwng-y-gwasanaethau-brys)

ARGYMHELLIAD:
Ystyried adroddiadau a diweddariadau'r Rheoleiddiwr a'r Arolygiaeth

RHESWM AM YR ARGYMHELLIAD:
Fel bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybod am yr adroddiadau, y cynigion a'r gwaith sy'n mynd rhagddynt.

Atodiadau:	**Atodiad 1** – Amserlen Rhaglen Waith Chwarter 3 2021-2022 – Ceredigion **Atodiad 2** – Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar Gartref Gofal Preswyl Hafan Deg **Atodiad 3** – Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ar Gartref Gofal Preswyl yr Hafod **Atodiad 4 -** Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021 Cyngor Sir Ceredigion
Enw Cyswllt:	Elin Prysor
Swyddog Adrodd:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, a'r Swyddog Monitro
Dyddiad yr Adroddiad:	1/03/2022

Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ceredigion

Diweddariad Chwarterol: 31 Rhagfyr 2021

Crynodeb Archwilio Blynyddol

Disgrifiad	Amserlen	Statws
Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021.	Chwefror 2022	Cwblhau ar hyn o bryd.

Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwilio datganiad o gyfrifon 2020-21 y Cyngor	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2021	Gwaith archwilio wedi'i gwblhau. Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2021
Archwiliad o Ffurflen 2020-21 ar gyfer Harbwr Ceredigion	I gadarnhau bod y ffurflenni wedi'u cwblhau'n gywir.	Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2021	Gwaith archwilio wedi'i gwblhau. Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2021

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliad o Ddatganiadau a Grantiau 2020-21 y Cyngor	Archwilio hawliadau yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau.	Yn unol â'r terfynau amser unigol ar gyfer pob cais am grant.	Gwaith archwilio i'w wneud Hydref 2021 i Chwefror 2022
Archwilio datganiad o gyfrifon 2021-22 y Cyngor	I gadarnhau a yw'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg.	Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2022	Gwaith archwilio i'w wneud rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd 2022.
Archwiliad o Ffurflen 2021-22 ar gyfer Harbwr Ceredigion	I gadarnhau bod y ffurflenni wedi'u cwblhau'n gywir.	Barn Archwilio erbyn 30 Tachwedd 2022	Gwaith archwilio i'w wneud rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd 2022.
Archwiliad o Ddatganiadau a Grantiau 2021-22 y Cyngor	Archwilio hawliadau yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau.	Yn unol â'r terfynau amser unigol ar gyfer pob cais am grant.	Gwaith archwilio i'w wneud rhwng mis Hydref 2022 a mis Chwefror 2023

Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21	Cwmpas	Amserlen	Statws
Cynaliadwyedd Ariannol	Prosiect sy'n gyffredin i bob cyngor lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni'r heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20.	Wedi'i gwblhau	Cyhoeddwyd Medi 2021 Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cryno Cenedlaethol ym mis Medi 2021
Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio	Bydd yr adolygiad yn rhoi sicrwydd a mewnwelediad i weld a yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn cyflawni ei amcanion yn effeithiol ac yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor.	Wedi'i gwblhau	Cyhoeddwyd Tachwedd 2021

Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwaith archwilio perfformiad 2021-22	**Cwmpas**	**Amserlen**	**Statws**
Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf LICD)	Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau o dan LICD o'r camau i gyflawni amcanion lles ynghyd â'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r Cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn.	Ym mynd rhagddo	Ym mynd rhagddo
Archwiliad adrodd ar welliannau	Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.	Tachwedd 2021	Wedi'i gwblhau
Sicrwydd as Asesu Risg	Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen gwaith archwilio ychwanegol yn y dyfodol mewn perthynas â risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yng Nghyngor Sir Ceredigion mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar: • Sefyllfa ariannol • Trefniadau hunanasesu • Cynllunio adferiad • Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) • Cynlluniau lleihau carbon • Rheoli Perfformiad	Ym mynd rhagddo	Ym mynd rhagddo

Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21	Cwmpas	Amserlen	Statws
Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy	Wrth i'r byd fynd yn ei flaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.	Hydref 2021 ymlaen – Ebrill 2022.	Ar waith

Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol a gynllunir/ sydd ar waith

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion
Taliadau Uniongyrchol	Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol	Cyhoeddi yng Ngaeaf 2021-22	Dod i gasgliadau canol mis Hydref, drafftio a chyhoeddi yn gynnar yn 2022	Na – gwaith sy'n cael ei gyflawni drwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a detholiad o gyfweliadau dilynol.
Gwasanaethau Brys	Adolygiad o ba mor dda y mae'r gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio	Cyhoeddi yng ngaeaf 2021-22	Clirio, gyda chyhoeddiad ddiwedd Ionawr 2022	Amherthnasol

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ceredigion
Gwaith dilynol ar Bobl sy'n Cysgu Allan	Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020.	Amherthnasol	Amherthnasol	Nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo yn 2021-22
Tlodi	Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi.	Hydref 2021 – Hydref 2022.	Gwaith maes	Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor.
Mentrau Cymdeithasol	Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau	Hydref 2021 – Hydref 2022.	Gwaith maes	Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor
Cydnerthedd Cymunedol	Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnerthedd mewn cymunedau	Hydref 2021 – Hydref 2022.	Gwaith maes	Ie – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor

Estyn

Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Mae Estyn wedi gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllaw arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllaw sydd wedi'i ddiweddaru (a gyhoeddir ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu yn yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen gwneud unrhyw fireinio ychwanegol.	Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol i ailddechrau tuag at ddiwedd tymor yr Hydref	Amherthnasol
Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm	Consortia rhanbarthol a chymorth awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm.	Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref – cyhoeddi ddechrau mis Chwefror 2022	Amherthnasol

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith arfaethedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Gwiriad Sicrwydd Cenedlaethol 2020-21	Mae AGC bellach wedi cyhoeddi pob llythyr gwirio sicrwydd. Mae AGC wedi cyhoeddi ei adroddiad gwirio sicrwydd cenedlaethol sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol.	Wedi'i gyhoeddi	Wedi'i gwblhau
Rhaglen 2022-23	Bydd AGC yn cynnal rhaglen flynyddol o wiriadau sicrwydd, arolygiadau gwerthuso perfformiad ac arolygiadau sy'n seiliedig ar risg.	Ebrill 2022 – Mawrth 2023.	Cynllunio

Gwaith arfaethedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Adolygiad cenedlaethol	Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.	Wedi'i gyhoeddi	Wedi'i gwblhau
Gwaith dilynol	Bydd AGC yn cynnal gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgarwch arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen.	Ym mynd rhagddo	Mae un arolygiad dilynol sy'n seiliedig ar risg wedi digwydd ac mae i'w gyhoeddi. Mae dau wiriad sicrwydd dilynol ychwanegol wedi digwydd ac maent i'w cyhoeddi maes o law.
Arolygiad	Bydd gweithgarwch arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen.	Yn ôl y gofyn	Ni threfnir unrhyw arolygiadau ar hyn o bryd (hyd at fis Ebrill 2022)
Datblygiad	Bydd AGC yn parhau i ddatblygu ei ddull o arolygu ac adolygu awdurdodau lleol.	Ebrill 2022	Ar waith
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid **Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2020-21**	Adroddiad monitro blynyddol ar ffurf drafft ar hyn o bryd – mae hwn yn adroddiad ar y cyd ag Arolygiaeth Iechyd Cymru.	Rhagfyr 2021	Ar waith
Cyfarfod blynyddol gyda Chyfarwyddwyr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol	Bydd AGC yn cyfarfod â'r holl Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022	Ar waith

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2021

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn	Rhagfyr 2021
Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru	Tachwedd 2021
Gofalu am y Gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn ategu lles staff yn ystod pandemig COVID-19	Hydref 2021
Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol	Medi 2021
Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG	Medi 2021
Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus[1]	Medi 2021
Adfywio Canol Trefi	Medi 2021
Cyllid myfyrwyr	Awst 2021
Offeryn data cyllid y GIG 2020-21	Mehefin 2021
Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru	Mehefin 2021
Trefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: gwaith dilynol	Mai 2021
Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	Mai 2021

[1] Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. Dros y chwe wythnos a ganlynodd, cyhoeddwyd pum sylwebaeth sector byr: Darlun o lywodraeth leol,Darlun o ofal iechyd, Darlun o ofal cymdeithasol, Darlun o ysgolion, Darlun o addysg uwch ac addysg bellach.

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Yn ôl eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	Ebrill 2021
Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19	Ebrill 2021

Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill Archwilio Cymru i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo/a gynllunir)[2]

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Sylwadau cyfrifon Llywodraeth Cymru	Chwefror 2022
Llywodraeth Cymru yn pennu amcanion llesiant	Chwefror 2022
Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwebaeth	Chwefror/Mawrth 2022
Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol	Chwefror 2022
Ymateb ac adferiad COVID/Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – cymorth gan y trydydd sector	Chwefror 2022
Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwebaeth gofal wedi'i chynllunio	Mawrth 2022
Gweithlu Llywodraeth Cymru	Chwefror/Mawrth 2022

[2] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn inni ymateb i ddatblygiadau ym mholisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
Gwasanaethau orthopedig	Mawrth 2022
Diwygio'r cwricwlwm	Gwanwyn 2022
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	Gwanwyn 2022
Newid hinsawdd – adolygiad sylfaenol	Gwanwyn/haf 2022
Ymateb ac adferiad COVID/rheoli grantiau Llywodraeth Cymru – arall	I'w gadarnhau
Tai fforddiadwy	I'w gadarnhau
Seilwaith band eang	I'w gadarnhau
Rheoli perygl llifogydd	I'w gadarnhau

Digwyddiadau a chyhoeddiadau y Gyfnewidfa Arfer Da yn y dyfodol

Teitl	Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwyliedig
Adnoddau ar ôl y digwyddiad gan gynnwys recordiadau sesiwn ar gyfer digwyddiad Llamu Ymlaen ar gadernid sefydliadol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021	Diwedd Ionawr 2022
Digwyddiad Taliadau Uniongyrchol (teitl i'w gadarnhau)	30 Mawrth 2022

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar

Cartref Gofal Preswyl Hafan Deg

Cartref Henoed Hafan Deg
Temple Terrace
Llanbedr Pont Steffan
SA48 7BJ

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn y Saesneg

This report is also available in English

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

2 Tachwedd 2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.
Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Hafan Deg

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Oedolion Heb Nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleoedd cofrestredig	20
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion yGymraeg a diwylliant pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio

Crynodeb

Pwrpas yr arolygiad â ffocws hwn yw adolygu'r ddau Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth sydd ar agor ynglŷn â goruchwyliaeth y darparwr a'r amgylchedd.

Mae'r darparwr wedi cymryd camau tuag at wella'r amgylchedd ond bydd yr Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn aros ar agor. Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn edrych ymlaen at gwblhau'r gwaith a'r effaith gadarnhaol y bydd yn ei gael.

Mae'r darparwr wedi gwella goruchwyliaeth o'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref ac yn cynnwys pobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr gofal yn eu hadroddiad ansawdd gofal.

Llesiant

Mae pobl yn derbyn cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gallu gwneud pethau maen nhw'n eu mwynhau. Dywedodd unigolyn wrthym faint y maent yn gwerthfawrogi cael mynediad at ardal awyr agored er mwyn sgwrsio â staff. Mae amgylchiadau personol yn cael eu hystyried ac mae gweithwyr yn rhoi cymorth i bobl gadw cysylltiad â'u hanwyliaid. Mae pobl yn cael eu parchu. Siaradodd unigolyn â balchder am allu gwneud darlleniad ar Sul y Cofio. Dywedon nhw *“mae mor bwysig i ni gofio'r meirwon ac rwy'n falch o gael y cyfle i ddarllen i ni yma yn y cartref”.*

Mae pobl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ac yn mynegi eu barn ar y gwasanaeth. Mae pobl yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag adnewyddu'r gwasanaeth gan gynnwys cynlluniau lliw, ac maent yn edrych ymlaen at gwblhau'r gwaith adnewyddu a gweld y buddion a ddaw ohono. Ar ôl gorffen, bydd yr amgylchedd yn anelu i wella llesiant, gan helpu cyfeiriadedd pobl o gwmpas y cartref, a bydd yn ceisio gwneud y mwyaf o dechnoleg.

Gall pobl hefyd fynegi eu barn ar y gwasanaeth oherwydd bod yr unigolyn cyfrifol yn eu cynnwys a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae staff yn cyfrannu syniadau a chynigion er mwyn gwella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol yr unigolyn cyfrifol. Mae gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth. Mae camau clir a chynllun amser yn galluogi'r darparwr i wella'r gwasanaeth cyffredinol maent yn ei gynnig i bobl.

Gofal a Chymorth

Nid oedd gofal a chymorth yn ganolbwynt i'r arolygiad hwn, ond mae ein trafodaethau â phobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref unwaith eto'n dangos bod y gwasanaeth yn diwallu iechyd a llesiant pobl.

Siaradodd pobl yn gadarnhaol am y cymorth a gynigir a'r perthnasoedd gwaith o fewn yr holl dîm staff. Roedd rhyngweithiadau yn gyfeillgar ac yn galonogol. Gwelsom gymorth cadarnhaol ac effeithiol gan weithwyr gofal i roi sicrwydd i unigolion â heriau cof. Mae pawb yn edrych ymlaen at gwblhau'r gwaith adnewyddu a'r effaith gadarnhaol y bydd yn ei gael ar bobl.

Mae arferion hylendid da yn parhau trwy gydol y gwasanaeth. Mae staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn amgylchedd sydd yn cefnogi eu diogelwch. Mae'r darparwr wedi cychwyn rhaglen adnewyddu a fydd yn gwella iechyd a llesiant unigolion.

Mae'r gwaith o ailosod carpedi wedi dechrau, gyda'r ardaloedd mwyaf angenrheidiol wedi eu cwblhau. Mae'r gwaith o adnewyddu mannau cymunol yn systematig wedi dechrau gyda chynlluniau lliw a dodrefn cyfatebol, croesawgar. Mae'r gwaith o ddiweddaru ystafelloedd unigol wedi dechrau, gyda'r rhai sydd eisoes wedi eu haddurno yn llachar a bydd gorchuddiadau wal newydd a chadarn yn gwella dulliau rheoli heintiau. Nod y socedi trydanol a'r ffitiadau ychwanegol yn yr ystafelloedd gwely yw cefnogi'r defnydd o dechnoleg yn well. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn teimlo'n frwdfrydig dros y gwaith a gwblhawyd eisoes, a dywedodd un "*mae'r gweithwyr yn brysur ac rwy'n edrych ymlaen at y gwelliannau*". Mae'r staff yn teimlo'n gadarnhaol am y cynllun a'r effaith ar y bobl yn y gwasanaeth. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *"mi fydd yr addurniadau newydd llachar yn wych i'r preswylwyr*".

Er bod yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau i fod ar agor, rydym yn cydnabod bod y darparwr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â materion amgylcheddol. Rydym yn disgwyl i'r camau hyn barhau ac y bydd y gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau erbyn mis Chwefror 2022.

Rydym hefyd wedi cael ein hysbysu bod cynlluniau i drawsnewid rhan o'r cartref er mwyn gwella'r gwasanaeth maent yn ei gynnig i bobl sy'n byw â dementia. Mae hyn yn cynnwys pum ystafell wely, mannau cymunol a'r ardd. Mae'r darparwr yn disgwyl i'r gwaith hwn fod wedi ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2022.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwella eu trefniadau i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diweddaraf yn gynhwysfawr ac yn cynnwys sawl trafodaeth â phobl a'u cynrychiolwyr. Mae gweithwyr yn teimlo'n gadarnhaol am y cyfle i siarad â'r unigolyn cyfrifol a chael sgyrsiau agored am wella'r gwasanaeth. Mae gweithwyr yn siarad yn gadarnhaol am ganolbwyntio'r unigolyn cyfrifol ar eu hiechyd a llesiant yn ystod cyfarfod tîm diweddar.

Mae'r Adolygiad Ansawdd Gofal chwe mis yn fanwl ac yn cynnwys adborth gan bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth gyda chamau clir ar sut i wella ansawdd. Mae'r rhaglen adnewyddu yn ganolbwynt allweddol o'r adroddiad ynghyd â chynlluniau'r dyfodol ar gyfer yr adeilad.

Gallwn ddod i'r casgliad bod dulliau goruchwylio'r gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol wedi gwella a'u bod yn canolbwyntio ar lesiant pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Rydym yn disgwyl y lefel hon o oruchwyliaeth i barhau a bydd hyn yn cael ei brofi mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Adeilad	Ni chyflawnwyd
6	Gofynion mewn perthynas â darpariaeth y gwasanaeth	Cyflawnwyd

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 14/02/2022'

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar

Gartref Gofal Preswyl Yr Hafod

Cartref Hen Bobl Yr Hafod
Rhos-y-dre
Aberteifi
SA43 1NT

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

30 Tachwedd 2021

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.
Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Yr Hafod

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleoedd cofrestredig	28
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Cynhelir yr arolygiad â ffocws hwn i adolygu'r tri Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth sydd mewn grym mewn perthynas â goruchwyliaeth y darparwr a'r amgylchedd mewnol ac allanol.

Mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ar gyfer yr ardaloedd allanol wedi cael ei gau ac mae'r darparwr wedi cymryd camau tuag at wella'r amgylchedd mewnol ond bydd yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau mewn grym. Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn edrych ymlaen at gwblhau'r gwaith ac at yr effaith gadarnhaol y bydd yn ei chael.

Mae'r darparwr wedi gwella trefniadau goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref ac yn cynnwys y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal yn ei ymweliad a'r adroddiad ansawdd gofal sydd yn ei ddilyn. Mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth bellach ar gau.

Llesiant

Mae pobl yn derbyn cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gallu gwneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Mae'r [rheolwr] a'r staff yn wych ac yn enwedig [gweithiwr gofal] – mae hi'n ffantastig.”* Mae'r gweithwyr gofal yn annog rhyngweithiadau o fewn ardaloedd cymunol y cartref ac yn trefnu gweithgareddau ysgogol.

Mae pobl yn cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau ac yn mynegi eu barn am y gwasanaeth. Mae pobl yn cymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir ynghylch ailwampio'r gwasanaeth, gan gynnwys cynlluniau lliwiau a darnau celf ar y waliau. Ar ôl ei orffen, nod yr amgylchedd yw gwella llesiant, gan helpu pobl i ymgyfeirio wrth symud o amgylch y cartref a gwneud y mwyaf o'r dechnoleg.

Mae pobl hefyd yn gallu mynegi eu barn am y gwasanaeth oherwydd bod yr unigolyn cyfrifol yn eu cynnwys a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae'r staff yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau i wella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol yr unigolyn cyfrifol. Mae'r wybodaeth o'r archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro ac asesu safon y gwasanaeth. Mae camau gweithredu ac amserlenni clir yn galluogi'r darparwr i wella'r gwasanaeth cyffredinol y mae'n ei gynnig i bobl.

Gofal a Chymorth

Nid oedd gofal a chymorth yn ffocws yn yr arolygiad hwn, ond, eto, dengys ein trafodaethau â phobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref fod y gwasanaeth yn diwallu anghenion iechyd a llesiant pobl.

Mae pobl yn siarad yn gadarnhaol am yr holl dîm o staff a'r cymorth y maent yn ei dderbyn. Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn edrych ymlaen at gwblhau'r gwaith ailwampio ac at yr effaith gadarnhaol y bydd yn ei chael ar bobl.

Mae arferion hylendid da yn parhau drwy gydol y gwasanaeth. Mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn cydymffurfio â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu diogelwch. Mae'r darparwr wedi mynd i'r afael â'r holl faterion allanol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf ac wedi dechrau rhaglen ailwampio yn yr ardaloedd cymunol.

Mae'r darparwr wedi gosod ffens bren barhaol o amgylch y tiroedd yn lle'r ffens dros dro ac mae'r gwaith cynnal a chadw ar y gerddi wedi gwella. Bellach, mae modd i bobl gael mynediad at y tiroedd trwy'r heulfan a dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *“Rwy'n edrych ymlaen at fynd allan eto pan fydd y tywydd yn gwella.”* Gallwn ddod i'r casgliad bod y darparwr wedi cymryd camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion ynghylch yr amgylchedd allanol ac mae’r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei gau. Mae'r ystafelloedd gwely yr effeithir arnynt gan ollyngiad dŵr wedi'u peintio ac yn edrych yn llachar ac yn lân. Mae'r lolfa / ystafell haul gymunol yn cael ei huwchraddio'n llawn a'r ddwy lolfa lai yw'r ystafelloedd nesaf ar y cynllun ailaddurno. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref wedi'u cyffroi am y gwaith. Dywedodd un, *“Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld y lolfa'n cael ei haddurno.”* Mae'r staff yn gadarnhaol am y cynllun a'r effaith ar y bobl o fewn y gwasanaeth, a dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“Mae'r gwaith wedi dechrau yn y brif lolfa. Mae'n braf ac mi fydd yn braf i'r preswylwyr.”*

Er i'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth barhau mewn grym, rydym yn cydnabod bod y darparwr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol. Rydym yn disgwyl y bydd y cam gweithredu hwn yn parhau ac i'r broses ailwampio gael ei chwblhau erbyn mis Ebrill 2022.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwella ei drefniadau ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diweddaraf yn gynhwysfawr ac yn nodi nifer o drafodaethau a gynhaliwyd gyda phobl a'u cynrychiolwyr. Cadarnhaodd unigolyn sy'n byw yn y cartref ei fod wedi siarad â'r unigolyn cyfrifol ac mae'r staff yn cadarnhau bod yr unigolyn cyfrifol yn cymryd amser i siarad â phobl. Wrth drafod mewnbwn pobl, dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Maent wedi ystyried yr hyn yr hoffai'r preswylwyr ei gael, sef lluniau o draethau lleol ar y waliau."* Mae'r gweithwyr yn gadarnhaol am y trafodaethau gyda'r unigolyn cyfrifol ynglŷn â gwella'r gwasanaeth. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"Mae [yr unigolyn cyfrifol] yn hoffus iawn ac yn hawdd iawn mynd ati a bydd yn treulio amser yn siarad â phreswylwyr."*

Mae'r adolygiad chwe misol o ansawdd y gofal yn fanwl ac yn cynnwys adborth gan bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth gyda chamau gweithredu clir ar sut i wella ansawdd.

Gallwn ddod i'r casgliad bod y broses o oruchwylio'r gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol wedi gwella ac yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar lesiant y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Rydym wedi cau'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth hwn ac rydym yn disgwyl y bydd y lefel hon o oruchwyliaeth yn parhau; bydd hyn yn cael ei brofi mewn arolygiadau yn y dyfodol.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Safle	Ni chyflawnwyd
44	Safle	Cyflawnwyd
6	Gofynion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth	Cyflawnwyd

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 27/01/2022

Archwilio Cymru
Audit Wales

Cyngor Sir Ceredigion

Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021

Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

Ynglŷn â'r Cyngor

Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu

Ffeithiau allweddol

Mae'r Cyngor yn cynnwys 42 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Plaid Cymru: 20
- Annibynnol: 11
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: 7
- Y Llais Annibynnol: 3
- Heb ei grwpio: 1

Gwariodd y Cyngor £149.9 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2020-21, y 19eg gwariant uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru.

[1] Ystyr gwariant ar wasanaethau yw'r gost a godir ar y gronfa gyffredinol am wasanaethau o'r Dadansoddiad Cyllid Gwariant, namyn cost unrhyw wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

Ffeithiau allweddol

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £44.6 miliwn o gronfeydd ariannol defnyddiadwy[2]. Mae hyn yn cyfateb i 29.7% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y 9fed ganran uchaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[3].

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion 1 allan o 46 o ardaloedd yr ystyrir eu bod ymysg y 10% o ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru, a hwn yw'r pedwerydd isaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[4].

Rhagwelir y bydd poblogaeth y Sir yn lleihau 4% rhwng 2020 a 2040 o 71,897 i 69,009, gan gynnwys gostyngiad rhagweledig o 14.4% i nifer y plant, gostyngiad o 12.3% i nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 20.9% i nifer y bobl 65 oed neu hŷn[5].

Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

Gwnaethom waith yn ystod 2020-21 i fodloni'r dyletswyddau canlynol

- **Gwelliant parhaus**

  Bu'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a wnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion hyn yn ystod 2020-21.
- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu'n briodol.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian o'r adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[2] Ystyr cronfeydd ariannol defnyddiadwy yw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw pan na ddiogelir y diben gan y gyfraith. Hwn yw cyfanswm y gronfa gyffredinol, y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a balansau yr ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf nas cymhwyswyd.

[3] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2020-21

[4] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru.

[5] Ffynhonnell: Stats Cymru

Rydym yn parhau i gydnabod y pwysau aruthrol ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Crynhoir ein canfyddiadau a'n casgliadau isod.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Cyngor Sir Ceredigion

Rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor bob blwyddyn.

Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 29 Tachwedd 2021 yn unol â'r dyddiad terfyn statudol.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu ac Adroddiad Naratif Blynyddol y Cyngor yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chanllawiau perthnasol. Roeddent yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac â'n gwybodaeth am y Cyngor hefyd.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 3 Awst 2021 yn dda.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, ac adroddwyd y rhain i'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ar 25 Tachwedd 2021.
- mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno'r dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi ei gwblhau.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi nodi unrhyw broblemau sylweddol.

Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaethom newid dull a phwyslais ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod, ceir crynodeb o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau y mae llawer ohono yn berthnasol i lywodraeth leol.

Gwnaethom gynnal prosiect i gefnogi ymdrechion y sector cyhoeddus drwy rannu yr hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig. Nod y prosiect yw helpu i ysgogi myfyrdod a chyfnewid arferion. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad cenedlaethol yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, gwnaethom gyhoeddi hefyd rai o arsylwadau yr Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad yn dilyn hyn ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom gyhoeddi hefyd ein hadroddiad ar weithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi bodloni ei ddyletswyddau sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y'i cadwyd gan orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cynaliadwyedd ariannol

Yn ystod 2020-21, gwnaethom archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Yng Nghyngor mis Mehefin 2021, daethom i'r casgliad canlynol: **Mae'r Cyngor yn dal i fod yn sefydlog yn ariannol ac yn canolbwyntio ar heriau'r dyfodol**. Mae'r adroddiad ar gael yma.

Gwnaethom gyhoeddi dau adroddiad cryno cenedlaethol hefyd: yr adroddiad cyntaf ym mis Hydref 2020 a'r ail adroddiad ym mis Medi 2021.

Cynllunio ar gyfer adfer

Yn ystod 2020-21, gwnaethom adolygu'r trefniadau yr oedd pob cyngor yng Nghymru yn eu rhoi ar waith i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer adfer. Yng Nghyngor Sir Ceredigion, gwnaethom y gwaith hwn ar sail barhaus gan roi adborth amser real pan oedd yn briodol.

Prosiectau lleol

- Gwnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio ym mis Tachwedd 2021. Mae'r adroddiad ar gael yma. Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: **A yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn bodloni ei amcanion yn effeithiol ac yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau yn Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor?** Ar y cyfan, canfuom y canlynol: Er bod aelodau'r Cyngor ac uwch swyddogion o'r farn bod y gwasanaeth cynllunio yn strategol allweddol, nid yw gwendidau sylweddol hirsefydlog yn nhrefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cefnogi'r Cyngor yn gynaliadwy nac yn gydlynol i wella perfformiad a chyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau strategol.

Mae'r Cyngor wrthi'n gweithio drwy ei gynllun gweithredu mewn ymateb i'n hargymhellion.

Arolygiaethau eraill

Gwnaethom ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn hefyd, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb iddynt.

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru Archwiliad Sicrwydd yng Nghyngor Sir Ceredigion ym mis Mai 2021. Cyflwynwyd llythyr i'r Cyngor ar ei ganfyddiadau. Mae'r llythyr ar gael yma.

Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau gan Estyn yn gysylltiedig â Chyngor Sir Ceredigion ers ein llythyr Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf.

Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol bob blwyddyn i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf:

Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain at gynghorau'n lleihau gwariant ac yn cyfyngu ar wasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Gwnaethom ganolbwyntio ar sut mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd ganddynt i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn ydynt. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau achub y cyfle i adnewyddu, ail-werthuso ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Blaenoriaethodd awdurdodau lleol adfywio canol trefi rhwng 1950 a 1980, gan greu mannau manwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi yn y gorffennol, disgwyliadau defnyddwyr sy'n newid a datblygiadau technolegol yn cael effaith andwyol bellach ar lawer o ganol trefi Cymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, ac mae un o bob saith siop ar strydoedd mawr Cymru yn wag bellach, er i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ac ysgogi £892.6 miliwn yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. Er mwyn cyflawni'r canlyniadau lleol gorau, mae angen cysoni ac integreiddio polisïau a'r broses o gydweithio, gan flaenoriaethu adnoddau ar gyfer canol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

Gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22

Buom hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn cysylltiad â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Pandemig COVID-19 sy'n parhau i fod y risg a'r mater mwyaf sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2021-22. Rydym wedi llunio ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- Asesu sicrwydd a risg, gan gynnwys pwyslais ar y canlynol:
  - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
  - Cynllunio adferiad
  - Cynlluniau i leihau carbon
  - Trefniadau hunanasesu
  - Y sefyllfa ariannol
  - Rheoli Perfformiad
- Llamu Ymlaen – wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau wrth gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau.
- Archwiliad adrodd am welliant

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfedd â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gallai gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.